# Strategaeth Gaffael
# Procurement Strategy
## 2023-2028



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Rhagair

## Aelod Cabinet

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno Strategaeth Gaffael Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2023-2028 sy'n cefnogi dyheadau Datganiad Gweledigaeth y Cabinet. Yn benodol, ein nod yw cefnogi busnesau lleol a thwf economaidd, mynd i'r afael â thlodi a chyflawni ein hymrwymiad i fod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030.

Mae'r strategaeth newydd hon yn cynnig cyfle i fyfyrio ar y cynnydd a wnaed drwy ein hymrwymiad i ddull mwy strategol o gaffael ein nwyddau, ein gwasanaethau a'n gwaith ac i edrych ymlaen yng nghanol y cyfnod heriol rydym yn byw ynddo.

Mae'n bwysicach nag erioed defnyddio dull strategol o weithredu o ran gweithgareddau caffael y Cyngor, gan sicrhau bod gennym y trefniadau angenrheidiol ar waith a fydd yn helpu swyddogion i gydweithio i ddarparu atebion arloesol sy'n cynnig gwerth am arian, sy'n gynaliadwy, yn effeithlon ac, yn y pen draw, yn gwella llesiant trigolion Sir Gaerfyrddin.

*Y Cynghorydd Alun Lenny*
*Aelod Cabinet dros Adnoddau*

## Y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol

Mae'r strategaeth ddiwygiedig hon yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer 2023-2028 ac yn amlinellu sut y bydd gweithgareddau caffael y Cyngor yn parhau i gyfrannu at gyflawni amcanion y Cyngor dros y pum mlynedd nesaf.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gwario tua £311 miliwn bob blwyddyn gyda chontractwyr, cyflenwyr a darparwyr gwasanaethau allanol ac, fel swyddogion, mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod y gwariant hwn yn rhoi gwerth am arian i drigolion y sir, drwy bolisïau ac arferion caffael effeithlon ac effeithiol sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau.

Yn ogystal, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn gallu cynllunio ar gyfer y dirwedd ddeddfwriaethol sy'n newid yn barhaus ac ymaddasu iddi, gan gynnwys diwygio'r Rheoliadau Caffael Cyhoeddus a fydd yn digwydd yn 2024. Rhaid i'r Cyngor hefyd barhau i gaffael yn erbyn cefndir o ansicrwydd economaidd a geowleidyddol, lle gall digwyddiadau'r byd gael effaith sylweddol ar ein gweithgareddau caffael lleol. Mae'n hanfodol ein bod yn gallu ymateb ac ymaddasu i heriau o'r fath.

Fel y Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am y maes gwasanaeth allweddol hwn, rwy'n cydnabod bod arferion caffael arloesol sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni gweledigaeth y Cyngor, cefnogi busnesau lleol wrth ddiogelu ein gwasanaethau rheng flaen a chefnogi ein sir mewn ffordd sy’n gynaliadwy ac yn ymwybodol o ystyriaethau cymdeithasol.

*Chris Moore*
*Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol*

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Rhagarweiniad

**Beth yw caffael?**
"Proses lle mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan yn nhermau cynhyrchu manteision, nid yn unig i'r sefydliad caffael, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, gan greu'r difrod lleiaf i'r amgylchedd." [1]




## Ein gweledigaeth

### "Cymhwyso meddwl strategol i'n holl weithgareddau caffael sy'n cefnogi darpariaeth leol."

Ers ein strategaeth gaffael ddiwethaf (2018-2022) cafwyd heriau digynsail ledled y DU. O ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn 2020 i bandemig Covid-19, bu'n rhaid i ni addasu ein dull o ran caffael yn barhaus i ddarparu gwasanaethau o safon a gwerth am arian. A'r cyfan wrth brofi marchnadoedd cyflenwi hynod gyfnewidiol, lle gwelwyd costau cynyddol ac ansicrwydd o ran cyflenwi. Byddwn yn parhau i weld effeithiau'r pandemig am flynyddoedd i ddod.

Yn 2024, bydd diwygiad 'unwaith mewn cenhedlaeth' o ran deddfwriaeth caffael. Bydd hyn yn creu newid sylweddol o ran y ffordd rydym yn caffael, ynghyd â chyfleoedd cyffrous i roi gwerth am arian a budd i'r gymuned yn fwy wrth wraidd ein gweithgareddau caffael. Bydd mwy o ofynion o ran tryloywder yn ein dwyn i gyfrif yn fwy am y penderfyniadau a wnawn, a'r effaith y maent yn ei chael ar gyflenwyr, y cyhoedd a'r economi.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi dysgu ymaddasu ac, ar adegau ansicr, daw mwy o hyblygrwydd a pharodrwydd i roi cynnig ar wahanol ddulliau. Byddwn yn parhau i ddarparu atebion caffael arloesol a chynaliadwy sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau.

[1] Datganiad Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru 2015.

## Ein diben

Mae'r Strategaeth Gaffael hon yn amlinellu ein nodau a'n hamcanion i helpu i gyflawni ein gweledigaeth, sef cymhwyso meddwl strategol i'r holl weithgareddau caffael. Ein nod yw gwneud hynny wrth sicrhau caffael cynaliadwy a chymdeithasol gyfrifol ac ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor Sir Gaerfyrddin.

Byddwn yn sicrhau bod ein gwariant yn cydymffurfio â'n Rheolau Gweithdrefnau Contractau a'r rheoliadau Contractau Cyhoeddus wrth godi proffil caffael i ddylanwadu ar gynllunio cynnar ar gyfer darparu gwasanaethau effeithiol.

Drwy hybu arferion cadarn o ran rheoli contractau, byddwn yn sicrhau bod ein contractau yn perfformio yn ôl y disgwyl.

Byddwn yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei nodau a'i amcanion ehangach, fel y nodir yn ei Strategaeth Gorfforaethol (2022 – 2027) a Datganiad Gweledigaeth y Cabinet (2022-2027). Byddwn yn hyrwyddo'r dull 'Meddwl Sir Gâr yn Gyntaf' yn eang, gan annog swyddogion, lle bynnag y bo'n bosibl, i ofyn am ddyfynbrisiau gan gyflenwyr lleol. Byddwn yn parhau i gynorthwyo busnesau lleol, gan weithio i gael gwared ar rwystrau sy'n wynebu busnesau bach a chanolig a thargedu cymorth at gyfleoedd tendro penodol ledled y Sir a hyrwyddo ein blaenraglen waith ymlaen llaw.

## Ein Llywodraethu a'n Harweinyddiaeth

Mae'r Uned Caffael Corfforaethol yn rhan o'r Is-adran Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn Adran y Gwasanaethau Corfforaethol. Ar hyn o bryd, mae'r Uned Caffael Corfforaethol yn dîm o 12 Swyddog Caffael, ac mae 10 ohonynt yn meddu ar y cymhwyster caffael proffesiynol - CIPS (Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi).

Rydym yn rhan o Adran y Gwasanaethau Corfforaethol ac yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Rydym yn cael ein cynrychioli ar amrywiaeth o grwpiau llywio a gweithgorau caffael rhanbarthol a chenedlaethol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau newidiol ac i rannu arfer gorau ar draws pob sector.

Mae hyn i gyd wedi'i nodi yn y rheoliad yng Nghyfansoddiad y Cyngor, drwy'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau a'r Rheoliadau Ariannol, sydd yn eu tro yn cyd-fynd â rheoliadau cyfredol y DU, sef y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (2015).

## Y Cyd-destun Statudol

Ar hyn o bryd, mae caffael yn cael ei lywodraethu gan **Reoliadau Contractau'r Sector Cyhoeddus 2015** ond, yn 2024, bydd caffael yn destun diwygio deddfwriaethol sylweddol. Bydd y **Bil Caffael** yn creu cryn newid o ran y ffordd rydym yn caffael, gan roi gwerth am arian, budd i'r cyhoedd, tryloywder a chywirdeb wrth wraidd ein system gaffael.

Deddfwriaeth arall a fydd yn effeithio ar sut rydym yn caffael yw **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023** a ddaeth i rym ym mis Mai 2023 a **Bil**

**Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)** sydd ar ddod. Bydd y ddeddf gyntaf yn ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i ni ystyried caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol wrth gynnal gweithgareddau caffael, pennu amcanion mewn perthynas â'r nodau llesiant a chyhoeddi strategaeth gaffael. Bydd yr ail yn newid y ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu caffael yng Nghymru.

## Sbardunau Polisi

Drwy gyflawni'r strategaeth hon, byddwn yn sicrhau bod modd cyflawni nifer o'r canlyniadau disgwyliedig a nodwyd yn **Strategaeth Gorfforaethol (2022-2027) y Cyngor** a bydd hyn, yn ei dro, yn sail i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a'n Hamcanion Llesiant.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gyflawni datblygu cynaliadwy, sy'n golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae rôl caffael yn rhan bwysig o'r ffordd y mae corff cyhoeddus yn dyrannu adnoddau o dan y Ddeddf.

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin bedwar Amcan Llesiant sydd wedi deillio o'r saith Nod Llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan ei bod yn swyddogaeth strategol, bydd caffael ynghlwm wrth y pedwar amcan, drwy ei waith gyda'r adrannau, er ein bod yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r canlynol yn benodol:-

- Amcan Llesiant 3 - Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus) drwy gyflawni'r cymalau ynghylch Budd i'r Gymuned a Gwerth Cymdeithasol.
- Amcan Llesiant 4 - Moderneiddio a datblygu ymhellach yn Gyngor gwydn ac effeithlon (Ein Cyngor) drwy gyflawni ein swyddogaeth o ran cefnogi ein hadrannau i gontractio'n effeithiol.

Byddwn yn sicrhau bod ein gweithgareddau caffael yn unol â'r holl ddeddfwriaeth a pholisïau perthnasol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn cadwyni cyflenwi.

Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, byddwn yn parhau i ymgorffori'r Gymraeg yn ein gweithgareddau tendro a Budd i'r Gymuned.

**Datganiad Polisi Caffael Cymru**
Mae hyn yn nodi'r egwyddorion o ran cyflawni caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r 10 egwyddor wedi'u hymgorffori yn y Strategaeth hon, sy'n dangos ein hymrwymiad parhaus i gaffael llesiant yng Nghymru.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Carbon Sero Net**

Mae gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau yn biler trefnu canolog o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin. Ym mis Chwefror 2019, datganodd y Cyngor argyfwng hinsawdd ac ymrwymodd i fod yn awdurdod lleol Carbon Sero Net erbyn 2030. Yn 2022, cyhoeddodd y Cyngor argyfwng natur hefyd i gydnabod pwysigrwydd y rôl sydd ganddo wrth liniaru effeithiau'r argyfyngau natur a hinsawdd, a'i rôl arwain ar draws y sector cyhoeddus ehangach.

Y Cyngor oedd un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i ddatblygu cynllun sero net, ac rydym yn cynnwys ystyriaeth o'r effaith amgylcheddol yn y broses o gaffael ein nwyddau, ein gwasanaethau a'n gwaith o'r cychwyn cyntaf, er mwyn darparu atebion mwy cynaliadwy.


Rydym hefyd yn gweithio drwy Banel Strategaeth Newid Hinsawdd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gydweithio ag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i ysgogi newid, a datblygu a darparu dulliau arloesol o gaffael, er enghraifft drwy ddefnyddio ein hadnoddau ar y cyd i gyflymu'r defnydd o fflyd carbon isel.

Mae sicrhau Sero Net yn gofyn am ostyngiad mewn allyriadau ac, er ein bod yn cydnabod yr her bresennol o ran adrodd am allyriadau Cwmpas 3 yn y gadwyn gyflenwi, oherwydd eu bod yn cynnwys gwe gymhleth o weithgareddau drwy'r gadwyn gwerth, rydym wedi ymrwymo i gydweithio â chyflenwyr, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill i gael gwell dealltwriaeth a chanolbwyntio ar weithgareddau sy'n lleihau carbon o fewn y gadwyn honno. Bydd y ddealltwriaeth gywirach honno yn helpu i nodi cyfleoedd i adrannau leihau eu heffaith amgylcheddol ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan.

# Our Spend

Carmarthenshire Spend Category Structures




**ATAMIS Spend Data 2022/23 which includes school expenditure*

## Ein Cyflenwyr



| | | |
|---|---|---|
| **71%** of our spend is with SMEs | **47%** of our spend is with Carmarthenshire suppliers | **76%** of our spend is with Welsh suppliers |
| Average Welsh local authority spend with SMEs is **42%** | Average Welsh local authority spend within county is **30%** | Average Welsh local authority spend with Welsh suppliers is **62%** |

## Ein Dull Ni o Weithredu

### Rheoli Categorïau

**Opportunity** – Challenging the need for and nature of the service / works / goods

**Need** – Ensure a clear specification

**Market** – Ensure sufficient understanding of the market

**Strategy** – Select an appropriate procurement route to market

**Execute** – Run a compliant process

**Perform** – Ensure effective contract implementation and management of performance

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein Dull Rheoli Categorïau o ran ein gwariant ar gaffael – Drwy ddeall adnoddau a blaenoriaethau'r Cyngor, gallwn wneud penderfyniadau gwybodus gyda'n swyddogion ar draws yr adrannau ynghylch ble y dylid dyrannu gwariant, wedi'u cefnogi gan ein data.

## Ein Blaenoriaethau

Yn unol â'n cefnogaeth i gyflawni'r nodau yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, rydym wedi nodi'r blaenoriaethau allweddol canlynol ar gyfer yr Uned Caffael Corfforaethol. Byddwn yn esbonio'n fanwl isod pam mae'r blaenoriaethau hyn yn bwysig, beth rydym am ei gael ohonynt a sut y byddant yn cael eu cyflawni, a sut y bydd eu heffaith yn cael ei mesur: -






# Sicrhau prosesau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau

## Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae cymhlethdod cyfraith gaffael y DU a chyfraith achosion sy'n datblygu yn gofyn bod y Cyngor yn cynnal prosesau tendro effeithiol sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn dryloyw, yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol a deddfwriaeth sy'n datblygu a'r arferion gorau o ran caffael. Mewn marchnad gynyddol gyfreithgar, rhaid i'r Cyngor ddiogelu ei hun rhag heriau posibl a allai olygu cosbau ariannol sylweddol, costau cyfreithiol sylweddol a difrod sylweddol i'w enw da, pe baent yn llwyddiannus.

Drwy gyflawni ein gweithgareddau caffael, rydym yn cydnabod y gallwn helpu i gefnogi amcanion strategol ehangach y Cyngor.

## Beth ydym am ei gael ohono?

- Rydym am sicrhau bod swyddogion ar draws y Cyngor sy'n gyfrifol am gaffael nwyddau, gwaith neu wasanaethau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i ymgymryd â gweithgareddau caffael sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau.
- Rydym am ymdrechu'n barhaus i ymgorffori egwyddor arloesi a gwelliant parhaus yn ein dulliau a'n prosesau caffael.
- Byddwn yn cefnogi rheolaeth contractau effeithiol i sicrhau gwerth am arian a chanlyniadau llwyddiannus, yn unol â'r amserlen a'r gyllideb.

## Sut y byddwn yn cyflawni hyn?

- Byddwn yn parhau i ddatblygu prosesau a thempledi safonol sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol, cyfraith achosion sy'n datblygu a pholisïau cenedlaethol.
- Byddwn yn cydweithio ag adrannau i weithredu rheolaeth contractau effeithiol ar draws y Cyngor.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi a modiwlau e-ddysgu i gefnogi'r timau rheoli categorïau a swyddogion adrannol.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu a buddsoddi mewn Uned Caffael Corfforaethol fedrus i ddarparu arweiniad proffesiynol ar gaffael.

## Sut y byddwn yn mesur ei heffaith?

- Byddwn yn monitro % y gwariant caffael sy'n cydymffurfio â'n Rheolau Gweithdrefnau Contractau.
- Byddwn yn monitro nifer y ceisiadau am eithriad am gymeradwyaeth i hepgor cystadleuaeth i'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau a dderbyniwn.
- Byddwn yn monitro Datblygiad Proffesiynol Parhaus swyddogion yn yr Uned Caffael Corfforaethol.
- Byddwn yn monitro lefel yr hyfforddiant caffael a ddarperir drwy'r Cyngor.

## Cyflawni gwariant yn effeithiol

### Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gwario arian mewn ffordd sy'n effeithlon ac yn sicrhau gwerth am arian, sy'n gynaliadwy ac sy'n cefnogi'r economi leol. Mae'n rhaid i ni gwestiynu a oes ffordd arall, a allwn ni ailddefnyddio adnoddau presennol a lleihau gwastraff o ran yr hyn rydym yn ei gaffael. Drwy brynu'r pethau cywir ac ystyried costau oes gyfan ein penderfyniadau comisiynu a chaffael, gallwn ystyried yn ofalus eu heffaith ar yr economi leol, y gymdeithas a'r amgylchedd.

### Beth ydym am ei gael ohono?

- Dull cydlynol a phenodol o reoli categorïau, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'n hanghenion busnes a dadansoddiad o'r farchnad sy'n allweddol i gyflawni gweithgareddau caffael effeithiol.
- Parhau i ddadansoddi ein gwariant i nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi a herio ymddygiadau gwario presennol, gan gynnwys nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd.

### Sut y byddwn yn cyflawni hyn?

- Byddwn yn datblygu templed 'Strategaeth Dendro' ar gyfer prosiectau strategol allweddol i archwilio'r angen busnes a llunio'r dull caffael a'r canlyniadau a ddymunir.
- Byddwn yn sicrhau bod dadansoddiad o wariant yn cael ei ddefnyddio'n strategol ac yn cael ei ystyried fel mater o drefn ar lefel yr uwch-arweinwyr.
- Byddwn yn adolygu ein Strwythur Rheoli Categorïau a'n dull gweithredu i sicrhau ein bod yn rheoli'r cyflenwad a'r galw ar draws ein holl weithgareddau caffael er mwyn sicrhau gwerth am arian.
- Byddwn yn parhau i ymgorffori'r broses Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer cymorth caffael i sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu rheoli'n effeithiol a'u bod yn gymesur â disgwyliadau'r Cyngor o ran cyflawni.
- Byddwn yn cydweithio â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru lle gellir sicrhau buddion.

### Sut y byddwn yn mesur ei heffaith?

- Byddwn yn monitro gwariant y Cyngor i lywio'r dull Rheoli Categorïau ac i sicrhau arbedion effeithlonrwydd lle cânt eu nodi.
- Byddwn yn monitro nifer y datganiadau o ddiddordeb a dderbynnir a nifer y tendrau yr ymgymerir â nhw i ddeall a yw adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithiol.
- Byddwn yn monitro % y gwariant caffael sy'n cydymffurfio â'n Rheolau Gweithdrefnau Contractau.




# Cynnal a datblygu'r economi leol

**Pam y mae hyn yn bwysig?**
Mae'r hyn a wariwn yn cael effaith sylweddol ar yr economi leol o ran cynaliadwyedd y sector a chreu swyddi. Rydym eisiau sylfaen gyflenwi gref sy'n cael cyfle cyfartal i wneud cais am waith gyda'r Cyngor.

**Beth ydym am ei gael ohono?**

- Rydym am gynorthwyo i ddatblygu economi leol fywiog sy'n gallu sicrhau twf cryf a chynaliadwy.
- Rydym am sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am bob punt a wariwn yn yr ystyr ehangaf; gan adeiladu cymunedau cryfach, lleihau allgáu cymdeithasol a thlodi a hybu datblygiad yr economi.

**Sut y byddwn yn cyflawni hyn?**

- Byddwn yn hyrwyddo 'Meddwl Sir Gâr yn Gyntaf' o ran gwariant gwerth isel, gan weithio gyda chydweithwyr yn y tîm Marchnata a'r Cyfryngau i'w hyrwyddo'n eang.
- Byddwn yn parhau i gyflawni ymgysylltu strategol ac arloesol â chyflenwyr er mwyn sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosibl i fusnesau bach a chanolig.
- Byddwn yn ymchwilio ymhellach i unrhyw rwystrau posibl sy'n wynebu busnesau bach a chanolig wrth geisio am waith ac addasu ein dull gweithredu yn unol â hynny.
- Byddwn yn parhau i wella a mireinio prosesau a dogfennau caffael i sicrhau eu bod yn gymesur â'r ymarfer tendro.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu cymalau arloesol ynghylch Budd i'r Gymuned / Gwerth Cymdeithasol, gan dargedu canlyniadau llesiant ehangach.
- Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi blaengynllun gwaith tymor hwy i wella mynediad at wybodaeth am ein tendrau presennol a rhai sydd ar ddod ar gyfer cyflenwyr.
- Byddwn yn cynnal ein Cofrestr Contractau ar-lein ar gyfer y gofyniad newydd yn y Bil Caffael.
- Byddwn yn parhau i gryfhau'r berthynas rhwng caffael a datblygu economaidd i dargedu cymorth effeithiol i fusnesau lleol.
- Byddwn yn cefnogi datblygiad yr Economi Sylfaenol, gan weithio gyda Datblygu Economaidd i ddatblygu cadwyni cyflenwi newydd a phresennol i ymgeisio ac i fod yn llwyddiannus yng nghytundebau'r Cyngor yn y dyfodol.

**Sut y byddwn yn mesur ei heffaith?**

- Byddwn yn monitro canran y gwariant gyda chyflenwyr lleol ac yn datblygu dull o ddadansoddi ailwariant cyflenwyr yn Sir Gaerfyrddin.
- Byddwn yn monitro, yn cofnodi ac yn adrodd ar y Budd i'r Gymuned a ddarperir drwy ein contractau a'n fframweithiau.
- Byddwn yn mabwysiadu dull o fonitro'r Buddion Economaidd Lleol a gedwir yn Sir Gaerfyrddin o gyflogaeth leol a gwariant y gadwyn gyflenwi leol drwy ein contractau.
- Byddwn yn parhau i ddadansoddi llwyddiant mentrau ymgysylltu â chyflenwyr gyda'r swyddogion Datblygu Economaidd i ddeall yr effaith ar gyflenwyr.

## Prynu'n gyfrifol

**Pam y mae hyn yn bwysig?**

Mae caffael cynaliadwy yn sbardun mawr ar gyfer arloesi, a drwy gymell cyflenwyr i leihau effaith nwyddau, gwaith a gwasanaethau ar yr amgylchedd, rydym yn chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael ag effaith newid yn yr hinsawdd a sicrhau cynaliadwyedd ein sir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn canolbwyntio ar ganlyniadau blaenoriaeth, fel creu swyddi a sgiliau lleol, darparu cyfle cyfartal i bawb, gwella iechyd a llesiant, lleihau allyriadau a sicrhau'r gwerth gorau am arian.

**Beth ydym am ei gael ohono?**

- Byddwn yn cyfrannu at ymrwymiad Carbon Sero Net y Cyngor.
- Byddwn yn cefnogi arferion Cyflogaeth Foesegol a Gwaith Teg.
- Byddwn yn ceisio mynd i'r afael â'r 7 Nod Llesiant a'r 5 Ffordd o Weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Sut y byddwn yn cyflawni hyn?**

- Byddwn yn datblygu ein dull o leihau carbon drwy ein gweithgareddau caffael, drwy gynnwys egwyddorion yr Economi Gylchol yn ein tendrau.
- Byddwn yn deall yn well ddwyster carbon ein cadwyn gyflenwi.
- Byddwn yn gweithio gyda CLlLC i ddatblygu canllawiau ac offer i gefnogi ymarferwyr i wneud penderfyniadau i gefnogi'r broses o drosglwyddo i gaffael carbon isel.
- Byddwn yn parhau i gymhwyso Asesiadau Risg Cynaliadwy Llywodraeth Cymru i'r holl weithgareddau caffael dros £25,000.
- Byddwn yn sicrhau bod cynifer o'n cyflenwyr a'n darparwyr yn ymrwymo i Gaffael Moesegol Llywodraeth Cymru, gan gyfeirio at y Cod Ymarfer.
- Byddwn yn ystyried ein 'Dyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol' yn unol â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.
- Byddwn yn adolygu'n barhaus ein gofyniad i'n contractwyr trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau ar y safle i ni dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w gweithwyr.
- Byddwn yn parhau i gefnogi'r Gymraeg drwy ein gweithgareddau caffael.
- Byddwn yn parhau i ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch y bwriad i gyflwyno deddfwriaeth ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael i sicrhau canlyniadau gwaith teg i bawb, ac yn ein nod parhaus o gyflawni caffael cymdeithasol gyfrifol.
- Byddwn yn parhau i ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar y Diwygiad Caffael posibl i leihau'r effaith ar ein cadwyni cyflenwi lleol.

**Sut y byddwn yn mesur ei heffaith?**

- Byddwn yn rhoi adroddiad ar ein hallyriadau Cwmpas 3 ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau a brynwyd i Lywodraeth Cymru.
- Byddwn yn monitro manylebau tendr o ran cynnwys mesurau lleihau carbon a chyflogaeth foesegol.
- Byddwn yn parhau i adolygu effaith cynnal ymarferion Asesu Risg Cynaliadwy ar gyfer ymarferion dros £25,000.

**Dolenni Defnyddiol**

**Cyngor Sir Caerfyrddin – Tendrau a Chontractau (Tudalen Gartref Caffael)**
https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/tendrau-a-chontractau/

**Strategaeth Gorfforaethol Sir Gaerfyrddin 2022-2027**
Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 (llyw.cymru)

**Datganiad Polisi Caffael Cymru**
WG45831 Datganiad Polisi Caffael Cymru (llyw.cymru)

**GwerthwchiGymru**
https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru

**Cysylltiadau**

Mae'r Uned Caffael Corfforaethol yn rhan o'r Is-adran Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol, yn Adran y Gwasanaethau Corfforaethol.

I gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol, e-bostiwch:
crcorporateprocurement@sirgar.gov.uk